# Uned 23: Cynhyrchu Gwartheg Godro

**Côd yr Uned:** K/600/9580

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 10

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 60

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno i ddysgwyr sgiliau a gwybodaeth y mae eu hangen ar gyfer cynhyrchu gwartheg godro, a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

## Cyflwyniad i'r uned

Dyluniwyd yr uned i wella sgiliau ymarferol y dysgwyr ynghyd â datblygu eu sgiliau dadansoddi beirniadol a'u sgiliau myfyriol o ran meysydd i'w gwella mewn menter odro. Mae'r sgiliau hyn yn bwysig i gyflogwyr a rheolwyr fferm ac yn rhoi canlyniad cadarnhaol i bawb.

Bydd dysgu theori yn datblygu ac yn gwella'r dysgu ymarferol i ehangu dealltwriaeth y dysgwyr o ran nifer o'r tasgau arferol a gyflawnir mewn uned odro fodern nodweddiadol.

Wedi cwblhau'r uned, bydd y dysgwyr wedi profi mwyafrif y tasgau a gyflawnir mewn menter odro fodern, ac yn deall y materion amrywiol sy'n gysylltiedig â rheoli gwartheg a lloi. Byddant wedi gallu nodi gwendidau ac awgrymu gwelliannau cadarnhaol, sef y sgiliau mae cyflogwyr heddiw yn chwilio amdanynt.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Ddeall egwyddorion magu buchesau godro cadw

2 Gwybod sut i reoli gwartheg drwy'r gylchred gynhyrchu

3 Gallu dewis gwartheg cadw a rheoli atgenhedlu gwartheg godro

4 Gallu cymhwyso rheoliadau a deddfwriaeth hylendid wrth gynhyrchu llaeth yn lân.

# Cynnwys yr uned

## 1 Deall egwyddorion magu buchesau godro cadw

*Magu lloi:* colostrwm a'i bwysigrwydd; lles a chodau ymarfer; ymddygiad porthi; gofal bogel; systemau lletya a magu (ee bwcedi, corlannau grŵp, porthwyr awtomatig, cutiau, awyru a drafft, gwellt, dimensiynau corlan); maeth (ee powdwr llaeth, llaeth cyflawn, rhigol y sefnig, symiau porthiant, brasfwyd, dwysfwyd, dŵr); iechyd ac atal clefydau (ee arthritis crawnol (joint-ill), niwmonia, ysgôth, chwyddwynt y boten fawr, tarwden); diddwyno (ee oedran, pwysau)

*Magu heffrod:* rhesymau dros fagu cartref; y niferoedd angenrheidiol (ee cyswllt â'r gyfradd difa gwartheg); targedau twf; cymarebau stocio; maeth; iechyd ac atal clefydau ee dolur rhydd feirysol buchol (BVD), Rhinotracheitis Buchol Heintus (IBR), Feirws Rhino Syncytiol (RSV), Leptosbirosis, parasitiaid mewnol ac allanol, twbercwlosis (TB); cydamseru rhidiad (rhesymau, dulliau)

*Tasgau lloi a heffrod:* trin a phenffrwyno; tymheredd; tagiau clust (ee pasbortau a deddfwriaeth); bogeiliau; digornio; tynnu teth sbâr; tiwb stumog; dadhydradu ac electrolytau; brechu; trin a diogelwch (ee milheintiau, trin â llaw, cyfarpar amddiffyn personol (PPE)).

## 2 Gwybod sut i reoli gwartheg drwy'r gylchred gynhyrchu

*Lloia:* paratoi ardal loia; arwyddion; cyfarpar; adfywio lloi

*Llaetha:* cromlin llaetha a llaeth a gynhyrchir; rhesymau dros greu grwpiau o wartheg (ee rhai sy'n cynhyrchu llawer, canolig a'r lleiaf); sychu (ee amseru, dull)

*Maeth:* mathau o borthiant (ee dwysfwyd, brasfwyd, mwynau); pwysigrwydd egni (ee lefelau egni porthiant, sylweddau sych, egni metaboladwy, lefelau egni dognau i gyd-fynd â thargedau); protin (ee protin crai, lefelau protin dognau); dehongli dadansoddiad porthiant; cyfrifo dognau; buwch sych a deietau trosi; sgôr cyflwr corff (BCS); pori (ee dulliau, uchder y gwair, cyfraddau stocio, mewnbwn porthiant)

*Clefydau (heblaw am mastitis):* clefydau metabolig (ee clwy'r llaeth, hypomagnasaemia, asidosis a chysylltu â lefel y dwysfwyd); parasitiaid mewnol ac allanol; problemau traed (ee triniaeth, trimio traed, atal); clefydau cyffwrdd-ymledol a hysbysadwy (ee Johnes, brwselosis, TB, cyfyngiadau TB); gwaredu stoc marw

*Lletya:* iardiau rhydd; ciwbiclau; gwaredu slyri a thail; Parthau Perygl Nitradau (NVZ)

## 3 Gallu dewis gwartheg cadw a rheoli atgenhedlu gwartheg godro

*Dewis gwartheg cadw:* gofynion bridio (ee asesu llinol, dethol tarw); y gyfradd ddifa a niferoedd yr heffrod sydd eu hangen

*Atgenhedlu gwartheg godro:* cylchred oestrws; synhwyro rhidiad (ee arwyddion, cymhorthion, amlder, perthnasedd i fylchu lloia a'r mynegai buches lloia); ymhadu artiffisial (SA); gwasanaeth naturiol; problemau wrth ail-fridio (ee clefydau, amseriad ymhadu artiffisial, cyflwr y corff); cofnodion bridio (ee ar gyfrifiadur, byrddau bridio); y defnydd o gymhorthion artiffisial wrth feichiogi (ee synwyryddion rhidiad-mynd ar gefn, chwistrelliad megis Estrumate, dyfeisiau y tu mewn i'r fagina); diagnosis beichiogrwydd (PD)

## 4 Gallu cymhwyso rheoliadau a deddfwriaeth hylendid wrth gynhyrchu llaeth yn lân

*Cynhyrchu llaeth yn lân:* cyfansoddion llaeth; y chwaren laeth; gollwng llaeth; paratoi'r parlwr; godro gwartheg â pheiriant; glanhau'r gylched; cynnal a chadw'r peiriant godro

*Deddfwriaeth a rheoliadau hylendid:* arfer godro mewn parlwr; safonau hylendid cyfredol; pwysigrwydd hylendid llaeth (ee Bactoscan, cyfrif celloedd somatig (SCC), gwrthfiotigau, difetha, dŵr o'r tu allan); mastitis a'i reoli (ee pathogenau cyffwrdd-ymledol ac amgylcheddol, achosion, triniaeth, atal, cynllun 5 pwynt)

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae’r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i’r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i’r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 trafod gofynion hwsmona a gofal iechyd llo newyddanedig | T1 cymharu dwy system wahanol ar gyfer magu lloi neu heffrod | Rh1 cynhyrchu costiadau ar gyfer menter magu lloi neu heffrod benodol a nodi meysydd ar gyfer gwella |
| Ll2 trafod gofynion rheoli a magu buches o heffrod [YA] | | |
| Ll3 disgrifio rheoli gwartheg ar bob cam o'u cylchred gynhyrchu [DM] | | |
| Ll4 nodi gofynion porthi gwartheg drwy'r gylchred atgenhedlu | | |
| Ll5 disgrifio rheoli clefydau ymhlith gwartheg drwy'r gylchred gynhyrchu | | |
| Ll6 disgrifio'r gylchred fridio ymhlith gwartheg | T2 monitro synhwyro rhidiad ac ymhadu grŵp o wartheg dros gyfnod penodol | Rh2 asesu'r mynegai lloia ar gyfer grŵp penodol o wartheg a nodi meysydd ar gyfer gwella. |
| Ll7 cyflawni gweithgareddau i reoli cynhyrchu gwartheg godro | | |
| Ll8 dethol stoc cadw a stoc bridio [MC] | | |
| Ll9 cyflawni gweithgareddau i odro gwartheg godro | T3 monitro canlyniadau'r prawf hylendid llaeth ar gyfer grŵp o wartheg dros gyfnod penodol | Rh3 nodi meysydd ar gyfer gwella wrth reoli mastitis mewn buches benodol |
| Ll10 cymhwyso gweithdrefnau hylendid i fodloni rheoliadau a deddfwriaeth [GT, HR, CE] | | |

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll11 disgrifio symptomau, achosion, atal a thrin mastitis ymhlith gwartheg llaeth | | |
| Ll12 archwilio gofynion yswiriant fferm fel sy'n gymwys gyda chynhyrchu gwartheg godro. | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| **Allwedd** | YA - ymholwyr annibynnol<br>MC - meddylwyr creadigol<br>DM - dysgwyr myfyriol<br>GT - gweithwyr tîm<br>HR - hunan-reolwyr<br>CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---|---|

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, ymweliadau â chasgliadau addas a bydd cysylltiadau â lleoliadau profiad gwaith.

Bydd angen i'r dysgwyr gael cymaint o brofiad ymarferol â phosibl ar uned odro. Gall hyn fod ar ffurf profiad gwaith, sesiynau ymarferol ar fenter y ganolfan ei hun, ac ymweliadau â ffermydd lleol.

Dyluniwyd yr uned i wella sgiliau ymarferol y dysgwyr ynghyd â datblygu eu meddwl beirniadol a'u sgiliau myfyriol, yn enwedig wrth ddadansoddi perfformiad menter. Gallai hyn fod ar ffurf adborth defnyddiol i reolwr fferm/gyflogwr gan roi canlyniad cadarnhaol o'r ddeutu.

Dylai sesiynau theori adeiladu ar sesiynau ymarferol a'u gwella er mwyn ehangu gwybodaeth dysgwyr am nifer o'r tasgau arferol a gaiff eu cyflawni mewn uned odro. Dylai'r tiwtoriaid benderfynu a gyflwynir y sesiynau theori hyn cyn neu wedi'r sesiynau ymarferol. Rhaid i waith tîm a iechyd a diogelwch fod yn rhan annatod o bob sesiwn.

Mae angen cyflwyno deilliant dysgu 1 yn gynnar yn y cwrs, fwy na thebyg yn yr hydref, lle gall y dysgwyr brofi gweithgareddau magu lloi a heffrod. Dylai'r tiwtoriaid ymdrechu i gynnwys y dysgwyr yng ngwaith fferm y ganolfan ei hun neu ar brofiad gwaith yn lleol.

Bydd deilliant dysgu 2 yn rhoi trosolwg i'r dysgwyr o sut i reoli buchesau godro. Bydd angen i'r tiwtor esbonio'n ofalus y rhesymau dros grwpio gwartheg, megis yn ôl maint eu cynhyrchiad, uchel, canolig ac isel, fel y gall y dysgwyr ddeall a phrofi'r gwahanol dargedau a chyflawniadau cynhyrchu ar gyfer y grwpiau hynny. Mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn deall hyn yn drylwyr er mwyn gallu deall rheoli'r fuches a'r asesiadau amrywiol sy'n dilyn ar gyfer y deilliannau dysgu eraill.

Ar gyfer deilliant dysgu 3 bydd y dysgwyr yn cyflawni tasgau bridio megis asesu llinol, synhwyro rhidiad a'i fonitro, ynghyd ag adnabod cryfderau a gwendidau ail-fridio. Bydd angen i'r tiwtoriaid benderfynu ar yr adeg orau i gyflwyno'r deilliant dysgu hwn. Mae rhai buchesau yn lloia drwy'r flwyddyn, ac eraill yn bennaf yn yr hydref neu'r gwanwyn, a bydd hyn yn cael effaith bwysig ar weithgareddau synhwyro rhidiad. Dylai'r tiwtoriaid hefyd geisio trefnu i'r dysgwyr arsylwi a thrafod ymweliad milfeddyg â fferm fel eu bod yn gallu gweld beichiogrwydd yn cael ei ddiagnosio a phynciau eraill cysylltiedig â bridio.

Bydd deilliant dysgu 4 yn galluogi dysgwyr i odro gwartheg a phrofi materion ynghylch cynhyrchu llaeth glân. Bydd angen iddynt gael mynediad i gofnodion fferm er mwyn monitro canlyniadau'r profion llaeth. Cyflwyno'r deilliant dysgu hwn olaf fyddai orau, am y bydd yn rhoi ffocws i wahanol agweddau y deilliannau dysgu eraill. Fodd bynnag, ni ddylai hyn olygu na ddylai'r dysgwyr gael profiad o wartheg godro cyn cyflwyno'r deilliant dysgu hwn. Dylai'r tiwtoriaid sicrhau bod y dysgwyr yn deall sut mae parlwr penodol yn gweithio a hefyd drefnu ymweliad â math gwahanol, megis parlwr troi neu beiriant godro robotig.

 © Pearson Education Limited 2019

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys yr asesiad) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| **Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir** |
|---|
| Cyflwyniad a throsolwg o'r uned. |
| **Aseiniad 1: Magu Lloi a Heffrod** (Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1). |
| Sesiwn theori: materion lles a chodau ymarfer, materion diogelwch, magu lloi o'u geni i ddiddwyno. |
| Sesiwn theori: magu heffrod o ddiddwyno i'w lloia cyntaf. |
| Sesiynau ymarferol: tasgau lloi a heffrod sy'n cynnwys gofalu am lo newyddanedig, trin, digornio, tynnu teth sbâr, tagio clustiau, brechu, pwyso, drensio |
| **Aseiniad 2: Cylchred Gynhyrchu Buchesau Godro** (Ll4, Ll5, Ll6) |
| Sesiwn theori: lloia, llaetha, sychu |
| Sesiwn theori: dosbarthu porthiant, egni, sylweddau sych, protin, cyfrifiadau dognau ac ME, dehongli dadansoddiad silwair, pori a systemau pori. |
| Sesiwn theori: clefydau a dosbarthu, achosion, symptomau, trin y prif glefydau. |
| Sesiwn theori: mathau o letya ar gyfer gwartheg godro, gwaredu slyri a thail, trin y prif glefydau. |
| Sesiwn ymarferol: helpu buwch i fwrw llo, mesur swm y silwair/gwellt/gwair mewn storfa, sgorio cyflwr corff, trimio traed, asesu caeau gwair a phori, asesu storfeydd tail. |
| **Aseiniad 3: Bridio Buchesau Godro** (Ll7, Ll8, T2, Rh2) |
| Sesiwn theori: cylchred oestrws, dethol tarw a buwch, y mynegai lloia, problemau ffrwythlondeb, dehongli cofnodion bridio, technegau cydamseru rhidiad, diagnosio beichiogrwydd. |
| Sesiwn ymarferol: synhwyro rhidiad, asesiad llinol gwartheg, defnyddio byrddau bridio, dehongli cofnodion bridio |
| **Aseiniad 4: Hylendid Llaeth a Rheoli Mastitis** (Ll9, Ll10, Ll11, Ll12, T3, Rh3). |
| Sesiwn theori: swyddogaeth y chwaren laeth, hormonau, arferion parlwr godro, nodi peiriannau godro, glanhau cylched, mathau o barlyrau |
| Sesiwn theori: safonau hylendid a chodau ymarfer, profion hylendid llaeth (Bactoscan, SCC, difetha, dŵr, gwrthfiotigau), mastitis a sut i'w drin a rheoli yswiriant fferm. |
| Sesiwn ymarferol: gwartheg godro, nodi a chynnal a chadw peiriannau godro. |
| Adolygu'r uned |

## Asesu

Ar gyfer Ll1, mae angen i'r dysgwyr ddisgrifio magu lloi o'u genedigaeth i'w diddwyno, gan gynnwys hwsmona a gofal iechyd. Yn ddelfrydol, dylent fod yn gyfarwydd â magu lloi fel y gallant ddisgrifio magu o'u profiad eu hunain. Bydd Ll2 ar fformat tebyg ar gyfer magu heffrod dros gyfnod penodol. Ar gyfer Ll7, dylai'r dysgwyr gyflawni tasgau magu lloi a heffrod penodol. Mae'n debygol y gallai'r dysgwyr gael eu hasesu yn ystod sesiynau ymarferol a naill ai ar brofiad gwaith neu wrth gyflawni dyletswyddau fferm.

Ar gyfer Ll3, gallai'r dysgwyr ddisgrifio rheoli grŵp o wartheg ar ffurf tabl, siart neu fformat tebyg arall er mwyn osgoi disgrifiadau ysgrifenedig hirfaith.

Ar gyfer Ll4, mae angen i'r dysgwyr ddeall gofynion egni a phrotin ar wahanol adegau o laetha a chyfnodau sych ar gyfer grŵp o wartheg. Bydd angen iddynt gael mynediad i gofnodion llaeth er mwyn canfod lefelau porthiant gwartheg. Ar gyfer Ll5, bydd ar y dysgwyr angen mynediad i gofnodion godro er mwyn asesu'r gwahanol driniaethau i glefydau. Gallai'r dysgwyr fonitro grŵp o wartheg am gyfnod penodol er mwyn cofnodi'r clefydau. Ar gyfer Ll6, mae angen i'r dysgwyr allu disgrifio'r gylchred fridio ar gyfer amser penodol, a allai fod yn flwyddyn gyfan. Gellid cyflwyno tystiolaeth ar ffurf tabl, siart neu gyflwyniad. Gellid asesu hefyd yn ystod gweithgareddau ymarferol gan ddefnyddio bwrdd bridio.

Ar gyfer Ll7, dylai'r dysgwyr gael amser penodol i arsylwi a chofnodi arwyddion rhidiad ymhlith gwartheg. Byddai cyfnod o 24 awr yn ddelfrydol i efelychu arfer diwydiannol da. Gellir asesu hyn yn ystod ac wedi gweithgaredd ymarferol. Mae Ll8 yn gofyn bod y dysgwyr yn dethol stoc cadw a stoc bridio. Mae Ll9 yn gofyn i'r dysgwyr odro grŵp o wartheg. Gellid cyflawni hyn fel rhan o brofiad gwaith/rhaglen ddyletswydd fferm, cyhyd â bod y meini prawf asesu yn safonol o'r cychwyn. Mae Ll10 yn cysylltu ag Ll9 a gellid eu cynnwys yn yr un asesiad. Ar gyfer Ll10, gellid rhoi manylion contract i'r dysgwyr ar gyfer buches benodol o wartheg, gan y bydd hynny'n ddiamau yn rhestru'r safonau hylendid gofynnol a gallant eu cymharu â'r hyn sy'n digwydd ar fenter fferm benodol.

Ar gyfer Ll11, dylai'r dysgwyr allu disgrifio gweithdrefnau trin a rheoli mastitis ar gyfer y gwartheg maent yn eu godro. Mae Ll12 yn gofyn bod y dysgwyr yn archwilio gofynion yswiriant fferm fel sy'n gymwys wrth gynhyrchu gwartheg godro. Gellir asesu'r rhain drwy adroddiad neu aseiniad.

Ar gyfer T1, bydd angen i'r dysgwyr ddewis naill ai dwy fenter magu lloi wahanol neu ddwy fenter magu heffrod wahanol a chymharu'r dulliau magu a ddefnyddir. Bydd angen iddynt ddisgrifio sut rheolir lletya, porthi a iechyd yn y ddwy system a ddewiswyd.

Ar gyfer T2, rhaid i'r dysgwyr fonitro synhwyro rhidiad ar gyfer grŵp penodol o wartheg dros gyfnod penodol o amser, a chofnodi'r gwartheg a semenwyd. Bydd angen i'r dysgwyr gysylltu â phobl allweddol ar y fferm a chael mynediad i gofnodion bridio fferm. Ar gyfer T3, rhaid i'r dysgwyr allu deall y profion hylendid llaeth a gyflawnir, er mwyn gallu dehongli a gwneud sylwadau ar ganlyniadau'r profion ar gyfer y fenter.

Ar gyfer Rh1, bydd y dysgwyr yn dethol naill ai menter magu lloi neu heffrod ac yn cynhyrchu dadansoddiad o'r costau dan sylw. Nod hyn yw datblygu ymagwedd fusnes sy'n efelychu ymarfer diwydiannol da. Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i gofnodion ariannol penodol. Ar gyfer Rh2, bydd y dysgwyr yn dehongli cofnodion bridio ar gyfer grŵp penodol o wartheg ac yn nodi'r prif feysydd gwendid ym mynegai lloia buches. Disgwylir i'r dysgwyr gyflawni gweithgareddau synhwyro rhidiad yn Ll8 er mwyn bod yn gyfarwydd â dulliau a rheolaeth y fferm o synhwyro rhidiad. Ar gyfer Rh3 rhaid i'r dysgwyr fod yn gyfarwydd â sut mae menter odro yn rheoli mastitis er mwyn gallu dehongli canlyniadau profion hylendid llaeth, ac o'r canlyniadau hyn nodi wendidau rheoli'r mastitis.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, Ll3, T1, Rh1 | Magu lloi a heffrod | Cyflawni tasgau magu lloi a heffrod amrywiol mewn menter/llaethdy a dadansoddi'r costau. | Arsylwi ymarferol ac asesu.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig. |
| Ll4, Ll5, Ll6 | Cylchred Gynhyrchu Buchesau Godro | Monitro grŵp penodol o wartheg o loia hyd sychu, gyda phwyslais arbennig ar eu maeth a'u hiechyd. | Arsylwi ymarferol ac asesu.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig |
| Ll7, Ll8, T2, Rh2 | Bridio Buchesau Godro | Cyflawni gweithgareddau synhwyro rhidiad gyda grŵp penodol o wartheg, dehongli gwybodaeth fridio ac asesu grŵp o wartheg am eu nodweddion godro. | Arsylwi ymarferol ac asesu.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig |
| Ll9, Ll10, Ll11, Ll12, T3, Rh3 | Hylendid Llaeth a Rheoli Mastitis | Godro grŵp o wartheg, monitro eu canlyniadau hylendid llaeth a nodi meysydd ar gyfer gwella. | Arsylwi ymarferol/profiad gwaith ac asesu.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig. |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| Lefel 2 |
|---|
| Cyflwyniad i Gynhyrchu Anifeiliaid Fferm |
| **Lefel 3** |
| Elfen LP35.1 Paratoi da byw godro<br>Elfen LP35.2 Monitro a chynnal da byw godro |
| Deall Bridio a Maeth Da Byw |
| Deall Anatomeg a Ffisioleg Anifeiliaid |

## Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i fentrau godro gyda chyfleusterau a chyfarpar priodol ar gyfer trin yn ddiogel. Bydd angen hefyd iddynt gael mynediad i systemau cofnodi fferm a gwybodaeth berthnasol a ddefnyddir ar gyfer cofnodi, monitro a dadansoddi perfformiad anifeiliaid.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar sut mae uned odro yn gweithredu a dylai'r dysgwyr gael mynediad i fentrau masnachol perthnasol. Gallai hyn gynnwys fferm y ganolfan ei hun ond dylai, lle y bo'n bosibl, gynnwys profiad gwaith ar fferm, marchnadoedd lleol, cysylltiadau diwydiannol perthnasol megis canolfannau bridio, melinau porthiant a ffermydd lleol.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau

Blowey R – *A Veterinary book for Dairy Farmers* (Old Pond Publishing, 2006) ISBN 1 905523 29 7

Blowey R – *Cattle Lameness and Hoof Care*, (Farming Press, 1998) ISBN 0 85236 2528

Chamberlain A a Wilkinson J – *Feeding the Dairy Cow* (Chalcombe Publications, 1996) ISBN 0948617322

Hulsen J a Swormink BK – *From Calf to Heifer* (Roodbont, 2006) ISBN 10: 90 75280 95 5

Hulsen J – *A Practical Guide for Dairy Farm Management* (Roodbont, 2005) ISBN 90

Peters A a Ball P – *Reproduction in Cattle, 3ydd Argraffiad* (Blackwell Publishing, 2004) ISBN 1405115459

Nix J – *Farm Management Pocketbook, 39ain Argraffiad* (The Andersons Centre, 2009) ISBN 0954120159

Straiton E – *Cattle Ailments* (Crowood Press 2008) ISBN 978 1 86126 383 4

Thickett B, Mitchell D a Hallows B – *Calf Rearing* (Crowood Press, 2003) ISBN 186126643X

### Cyfnodolion

*Dairy Farmer*

*Farm Business*

*Farmers Guardian*

*Farmers Weekly*

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.bcms.gov.uk | Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain |
| www.calfnotes.com | Calf Notes yw eich ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth berthnasol, anfasnachol a diduedd am loi godro ifanc. |
| www.dairyco.org.uk | Mae DairyCo yn sefydliad nid-er-elw, a ariennir gan ardollau, sy'n gweithio ar ran ffermwyr godro Prydain. Ein cylch gwaith yw datrys 'methiant y farchnad' yn y diwydiant godro - er mwyn taclo'r materion na chânt eu trafod yn ddigonol i fodloni gofynion y diwydiant. |

| | |
|---|---|
| www.defra.gov.uk | Defra yw adran llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol am bolisi a rheoliadau yr amgylchedd, bwyd a materion gwledig. |
| www.naturalresources.wales | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. |
| www.ndfas.org.uk | Mae'r Safonau Ffermydd Llaeth Gwarantedig (ADF) – NDFAS fel yr arferid ei alw - wedi cael eu datblygu i drafod pryderon yr holl bartïon â budd yn y gadwyn gyflenwi llaeth |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | ymchwilio i wybodaeth fferm ac ystadegau cyhoeddedig eraill neu gyfnodolion perthnasol y diwydiant |
| **Meddylwyr creadigol** | awgrymu stoc cadw a stoc priodol |
| **Dysgwyr myfyriol** | ystyried prosesau rheoli gwartheg godro |
| **Gweithwyr tîm** | ymwneud â sesiynau ymarferol a addysgir ac mewn gweithlu bychan |
| **Hunan-reolwyr** | gweithio i derfynau amser ac yn gyfrifol am eu dysgu eu hunain |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | ymwneud â sesiynau ymarferol a addysgir ac mewn gweithlu bychan |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | dadansoddi gwybodaeth fferm, corfforol ac ariannol, ac arsylwi rheoli menter fferm benodol |
| **Meddylwyr creadigol** | awgrymu dulliau gwella ar gyfer menter fferm<br>datblygu sgiliau newydd megis trimio traed, trin fforch godi delesgopig |
| **Dysgwyr myfyriol** | nodi gwendidau ac awgrymu dulliau gwella ar gyfer menter fferm. |
| **Gweithwyr tîm** | ymwneud â sesiynau ymarferol a addysgir ac mewn gweithlu bychan. |
| **Hunan-reolwyr** | trefnu eu gwaith eu hunain o fewn amgylchedd masnachol |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | gweithio o fewn gweithlu masnachol bychan. |

## Sgiliau Swyddogaethol – Lefel 2

| **Sgil** | **Pan fydd y dysgwyr yn…** |
|---|---|
| **TGCh - Defnyddio systemau TGCh** | |
| Dethol, rhyngweithio â systemau TGCh a'u defnyddio'n annibynnol ar gyfer tasgau cymhleth i fodloni anghenion amrywiol | cofnodi, nodi a dadansoddi gwybodaeth fferm megis canlyniadau profion hylendid llaeth, cyfraddau beichiogi, cyfnodau rhwng lloia ar gyfer gwartheg unigol |
| Defnyddio TGCh i gynllunio gwaith yn effeithiol a gwerthuso effeithiolrwydd y system TGCh a ddefnyddiwyd | |
| Rheoli storio gwybodaeth er mwyn galluogi adalw effeithlon | |
| Dilyn arferion diogelwch a diogeledd a deall yr angen amdanynt | |
| Datrys problemau | |
| **TGCh - Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | |
| Cael mynediad i wybodaeth seiliedig ar TGCh, chwilio amdani, ei dewis a'i defnyddio- a gwerthuso ei haddasrwydd at at y diben | |
| **TGCh - Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i gyd-fynd â'i hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>• testun a thablau<br>• delweddau<br>• rhifau<br>• cofnodion | |
| Dwyn ynghyd wybodaeth i gyd-fynd â'r cynnwys a'r diben | |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r diben a'r gynulleidfa | |
| Gwerthuso'r detholiad a'r defnydd o offer TGCh a'r cyfleusterau a ddefnyddiwyd i gyflwyno gwybodaeth | |

| **Sgil** | **Pan fydd y dysgwyr yn…** |
|---|---|
| Dethol a defnyddio TGCh i gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol gan gynnwys storio negeseuon a rhestrau cyswllt | |
| **Mathemateg** | |
| Deall problemau arferol ac anarferol mewn amrediad eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | dadansoddi cyfraddau beichiogi<br>mesur faint o silwair sydd mewn storfa<br>cyfrifo enillion/colledion ariannol o ganlyniad i ganlyniadau profion hylendid llaeth |
| Nodi'r sefyllfa neu'r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | |
| Dethol ystod o sgiliau a'u cymhwyso i ganfod datrysiadau | |
| Defnyddio gweithdrefnau gwirio priodol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar bob cam | |
| Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Llunio casgliadau a darparu cyfiawnhad mathemategol | |
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando - gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | cyflwyno gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd a sefyllfaoedd<br>cofnodi a monitro gwybodaeth mewn fformat penodol<br>cyfathrebu a dehongli cyfarwyddiadau o fewn tîm bychan |
| Darllen - cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | |
| Ysgrifennu - ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | |